COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 3ydd O FAWRTH 2014 YN NEUADD PONTIETS AM 7.00.

Presennol: Aled Williams (yn y gadair), Ian Evans, Tyssul Evans, Linda Williams ,Alan Lewis,Richard Thomas,Wendy Evans,Heddwyn Jones,Ellis Jenkins,Geraint Rosser,Geoff Hewitt a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Carrie Rees,Meic Bowen ac Emyr John

Materion Personol

776 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd a llongyfarchwyd Cadeirydd y Cyngor y Cynghorydd Carrie Rees a'i Gwr Paul ar enedigaeth ei merch Megan yn ystod y dyddiau diwethaf. Dymunwyd yn dda iddynt i gyd.

777 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod diwethaf ar 03/02/14.

778 Materion yn codi

Tud. 1 Wal ger Tafarn y Rwyth- Safle Gorsaf Pontiets. - Cafwyd Cyfarfod o'r Is-bwyllgor Cyllid ar 26/02/14 a thrafodwyd y mater yn llwyr.Penderfynwyd derbyn opsiwn 1 o gynlluniau W S Atkins a hefyd neilltuo £8000.00 o gyllid 2014/15 tuag at y gwaith. Penderfynwyd ein bod yn galw Cyfarfod gyda Network Rail,Cymdeithas Hanes Pontiets,Cymdiethas Rheilffordd Cwm Gwendraeth ac Ian J Thomas o Gyngor Sir Caerfyrddin i drafod y mater ymhellach.

Tud 1 Cyfleusterau Cyhoeddus y Meinciau – Awdurdodwyd y Clerc i dalu £349.00 i Pritchard Edwards, Cyfreithwyr , i gofrestri'r Les ar ein rhan.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

779 Gofal Mewn Galar,Cangen Sir Gaerfyrddin. Llythyr yn diolch am rodd,

780 Cymdeithas Lesiant Carwe a'r Cylch. Llythyr yn diolch am rodd tuag at ei Ystafell Dechnegol.

781 Pwyllgor Lles Llangyndeyrn. Llythyr yn diolch am rodd.

782 Teenage Cancer Trust. Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

.

783 Catch Up Ltd. Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

784 Victim Support,Llanelli. Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

785 Prism. Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

786 1st.Pontyates Brownies. Penderfynwyd danfon cyfraniad o £200.

787 Neuadd Gyhoeddus Bancffosfelen a Chrwbin - Tuag at Swyddfa Bost Cylch Crwbin a Llangyndeyrn. Penderfynwyd ein bod yn danfon cyfraniad o £300 sef hanner y rhodd y byddem yn cyfrannu tuag at Neuaddau o fewn ein Plwyf.

Gohebiaeth gyffredinol :-

788 Un Llais Cymru – Aelodaeth 2014-2015 – Penderfynwyd cyfrannu'r swm o £395.00.

789 Clwb Criced a Phêl-droed Carwe - Trydan i Oleuadau Parc Carwe - Awdurdodwyd y Clerc i dalu'r bil o £88.39.

Ceisiadau Cynllunio

790 Cadarnhau Ceisiadau Cynllunio

- Mr & Mrs Gower- Brynaeron,Meinciau- Estyniad – Caniatâd
- Mr Terry Evans- Heolydelyn,Crwbin - Garej - Caniatâd
- Tom Naylor - Lon Mayford,Carwe - Tŷ - Caniatâd
- Colin Mccullock-Fferm Meinciau Mawr- Cynllun Tir - Caniatâd
- Mr Karl Goble – 1 Heol Bancyroffis,Pontiets – Estyniad - Gwrthodwyd

Ceisiadau Cynllunio:

- J M Williams-Ty Llwyd,Llangyndeyrn- Estyniad- Dim Gwrthwynebiad

Cynghorwr Wendy Evans yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

- Mr & Mrs Downey – 3 Heol Bancyroffis,Pontiets – Estyniad – Dim Gwrthwynebiad

Wendy yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis

791 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Chwefror

Adroddiad Ariannol Misol

792 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
a) Cyflog y Clerc - £334.46 (Mis Chwefror)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Chwefror)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr – £89.19 (Mis Chwefror)
ch) Stampiau- £20.10
d) Treuliau'r Syrfëwr - £65.00 (Gorffennaf-Mawrth)
dd) Treuliau Ffon y Syrfëwr - £70.00 (Gorffennaf - Mawrth)
e) Justin Gravell – GwaithTrwshio yn y Plwyf- £1045.00

793 Parc Pontiets - Trosglwyddo'r Tir. Cafwyd adroddiad gan y Clerc o'r sefyllfa presennol.Awdurdodwyd y Clerc i dalu bil y Cyfreithwyr,Pritchard Edwards o £1578.00 am eu gwaith.

794 Cyfleusterau Ail-gylchu - .Cafwyd adroddiad gan y Clerc bod Cyfleusterau Ail-gylchu newydd wedi eu gosod o flaen Neuadd y Meinciau. Penderfynwyd ein bod yn datgan ein diolchgarwch i Bwyllgor y Neuadd am eu cydweithrediad yn y mater hwn.

795 Model Reoliadau Ariannol. - Cafwyd adroddiad gan y Clerc ynglyn a'r pwysigrwydd o osod Reoliadau Ariannol yn eu lle. Mabwysiadwyd y Rheoliadau Ariannol hyn gan y Cyngor.

Materion Cynghorwyr

796 Tyssul

- Angen 'Chippings' yn Bryncoch-Gwndwn Bach, Pedair Heol.

797 Richard

- Lamp allan ar Heol Meinciau Mawr
- Angen torri coed ar yr hewl o Bedair Heol i'r Meinciau - Cysylltu ag A Ruth Davies o Gyngor Sir Gar.

798 Ian
- Gofyn i'r Cyngor Sir a oes Dyn 'Patrol' newydd yn mynd i'r groesfan wrth Ysgol Gwynfryn
- Arwydd Bys heb ei osod yn ôl wrth Brongwendraeth,Carwe.

799 Linda
- Dail ar y llwybr rhwng Bancyroffis a Dwynant - A all y Cyngor Sir eu clirio?

800 Wendy
- Annibendod ar yr Heol gefn i Bonthenri - Cysylltu â'r Cyngor Sir.
- Cyflymdra ar yr Heol drwy'r Meinciau

801 Alan
- Lamp allan gerllaw Hafod Hedd,Gelligatrog, Meinciau

802 Geraint
- Car ar werth ar yr Heol ger y Sgwâr a'r Cwmpawd,Pontiets - Cysylltu â'r Heddlu.

803 Ellis
- Lamp allan wrth 7 Heol Brynhaul,Pontiets – rhif 72304

804 Geoff
- Ceir Rhieni Plant Ysgol Gwynfryn yn parcio yn Maesgwyn,Pontiets

Cyfarfod nesaf: 7fed o Ebrill 2014 yn Neuadd Pont-iets am 7.00,

Llofnodwyd…… CADEIRYDD

Dyddiad……